



|  |  |
|--|--|
| <p>Beth yw technolegau iechyd digidol i'w defnyddio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol?</p> | <p>Rydym yn diffinio technolegau iechyd digidol fel unrhyw feddalwedd neu apiau annibynnol sydd yn cael eu defnyddio i wella canlyniadau iechyd neu i wella'r ffordd y mae'r system iechyd a gofal yn rhedeg.</p>  |
| <p>Pa fath o dechnolegau iechyd digidol sydd o ddiddordeb i HTW?</p>                         | <p>Rydym yn croesawu ceisiadau ar unrhyw fathau o dechnolegau digidol, ond mae gennym ddiddordeb arbennig yn y rheini sydd o fudd uniongyrchol i iechyd a lles pobl. Mae technolegau o'r math hwn yn fwyaf tebygol o fod yn addas i'w harfarnu gan HTW. Nid yw technolegau digidol sydd wedi'u cynllunio i wella'r ffordd y mae'r systemau iechyd a gofal yn cael eu rhedeg, ond sydd ddim yn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl na'r gofal a gânt (fel y rhai sy'n canolbwyntio ar wella effeithlonrwydd), yn debygol o fod yn addas ar gyfer ein proses arfarnu lawn. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn dal i allu helpu drwy roi cipolwg ar y dystiolaeth sydd ar gael ar y dechnoleg (drwy Adroddiad Archwilio Pwnc byr), neu drwy eich cyfeirio at sefydliadau eraill yng Nghymru am gymorth.</p> |
| <p>Oes angen i mi fodloni unrhyw feini prawf eraill?</p>                                     | <p>Dylai fod o leiaf rhywfaint o ddata ar gael ar y dechnoleg newydd rydych chi'n ei chyflwyno sy'n ei chymharu â'r dechnoleg sydd yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd, a pha mor dda mae'n gweithio o'i chymharu â hyn. Os nad ydych yn siŵr a oes tystiolaeth o'r fath yn bodoli, gallwn helpu gyda hyn.</p> <p>Fel gyda pob math o arfarniadau, nid ydym yn ystyried meddyginiaethau.</p>  |
| <p>Pwy sydd yn gallu cyflwyno pwnc i'w ystyried?</p>   | <p>Gall unrhyw un awgrymu pwnc y credant y gallem ei arfarnu, ac rydym yn awyddus i dderbyn awgrymiadau gan bobl sydd ag ystod eang o gefndiroedd, gan gynnwys y cyhoedd. Mae awgrymiadau blaenorol wedi dod gan bobl:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Sydd yn gweithio ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol</li><li>• Sydd yn cael mynediad at wasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol</li><li>• Sydd yn darparu gofal i aelod o'r teulu neu ffrind</li><li>• Sydd yn datblygu neu ymchwilio i dechnolegau a modelau gofal a chymorth ar gyfer iechyd neu ofal cymdeithasol</li><li>• Sydd yn cefnogi pobl drwy'r trydydd sector a mudiadau gwirfoddol</li></ul>   |



|   |   |
|---|---|
| <p>Oes rhaid i gwmnïau fod wedi'u lleoli yng Nghymru i gyflwyno technoleg iechyd digidol i'w harfarnu?</p>    | <p>Os ydych chi'n ddatblygwr neu'n gwmni y tu ôl i dechnoleg, does dim angen i chi fod wedi'ch lleoli yng Nghymru, ond dylai eich technoleg fod ar gael yng Nghymru, neu dylech fod â chynlluniau i sicrhau ei bod ar gael yma.</p>   |
| <p>Beth yw manteision arfarniadau i bobl yng Nghymru?</p>   | <p>Ar gyfer pob pwnc sy'n addas i'w arfarnu, rydym yn ymchwilio ac yn gwerthuso'r technolegau gorau sydd ar gael ar lefel clinigol a chost-ffeithiol wrth eu defnyddio. Mae'r dystiolaeth hon yn cael ei defnyddio i lywio penderfyniadau ar y defnydd priodol o dechnolegau sydd yn cael eu cyflwyno i ni.</p> <p>Rydym yn credu bod hyn yn arwain at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Iechyd a lles gwell i bobl Cymru</li><li>• Gwerth gwell i bobl Cymru</li><li>• Tystiolaeth o fabwysiadu technolegau gofal yn deg a chyfartal yng Nghymru</li><li>• Mwy o gydraddoldeb rhwng technolegau ym maes meddygaeth/technolegau sydd ddim yn ymwneud â'r maes meddygaeth.</li></ul> |
| <p>Beth yw'r manteision i mi o gymryd rhan os ydw i'n gweithio ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol?</p>      | <p>Os oes gennych ddi-ddordeb mewn defnyddio technoleg neu chwilio am ateb i broblem iechyd a gofal, gallwn:</p> <p>Edrych ar ba dystiolaeth sy'n bodoli ar dechnoleg, a thynnu sylw at unrhyw fylchau sy'n bodoli</p> <p>O ran y technolegau rydym yn cynhyrchu canllawiau arnynt, nod HTW yw darparu cyngor cenedlaethol ar y ffyrdd mwyaf effeithiol a chost-ffeithiol o ddefnyddio technoleg.</p> <p>Mae gan y canllawiau a gynhyrchwn statws 'mabwysiadu neu gyfiawnhau', sy'n golygu bod disgwyl i fyrdau iechyd fabwysiadu ein hargymhellion neu gyfiawnhau pam nad ydynt wedi gwneud hynny.</p>   |
| <p>Beth yw'r manteision i mi o gymryd rhan os ydw i'n ddatblygwr technoleg neu'n gweithio ym maes arloesi</p> | <p>Os ydych chi'n ddatblygwr:</p> <p>Mae'r canllawiau rydym yn eu cynhyrchu yn berthnasol i Gymru gyfan, ac mae'n golygu eich bod chi'n osgoi gorfod gofyn i lwythi o bobl.</p> <p>Rydym yn darparu gwasanaeth cyfeirio a chefnogaeth gan amrywiaeth o sefydliadau eraill yng Nghymru</p> <p>Mae trosolwg annibynnol o'r dystiolaeth sy'n bodoli a pha dystiolaeth bellach y gallai fod ei hangen i gynhyrchu tystiolaeth yn cael ei gynnal.</p>  |



|  |   |
|--|---|
| Beth sy'n digwydd ar ôl i mi gyflwyno pwnc?              | Gallwch ddod o hyd i drosolwg o'n Proses Arfarnu, sy'n amlinellu'r camau posibl ar ôl i bwnc gael ei gyflwyno yma.  |
| Sut fydd technolegau'n cael eu hasesu ar ôl eu cyflwyno? | <p>I ddechrau, bydd Tîm Ymchwil mewnol HTW yn penderfynu p'un a yw pwnc yn berthnasol i'w arfarnu neu beidio. Yna, mae Ymchwilwyr HTW yn cynhyrchu Adroddiad Archwilio Pwnc ar gyfer pynciau sy'n berthnasol i gael eu harfarnu. Mae canfyddiadau'r adroddiad yn cael eu trafod gyda'n Grŵp Asesu ac yn cael eu hanfon at y cynigydd pwnc i gael sylwadau, cyn ei fod yn cael ei gwblhau a'i gyhoeddi.</p> <p>Pan fydd Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth a Chanllawiau yn cael eu cynhyrchu ar bwnc, mae Tîm Ymchwil HTW yn paratoi ac yn drafftio'r Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth gyda mewnbwn gan y Grŵp Asesu. Gwahoddir arbenigwyr pwnc a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys y cynigydd pwnc os yw'n berthnasol, i roi sylwadau ar yr adroddiad cyn iddo gael ei gwblhau.</p> <p>Mae Panel Arfarnu HTW yn ystyried y dystiolaeth o fewn yr Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth, ac yn sicrhau bod y goblygiadau i GIG Cymru a'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi cael eu hystyried yn briodol. Maen nhw'n ystyried barn arbenigwyr pwnc hefyd. Gan ddefnyddio'r holl wybodaeth hon, mae'r Panel Arfarnu yn cytuno ar ganllawiau HTW ac yn eu cyhoeddi.</p> |
| Pa mor hir mae pob cam o'r broses yn ei gymryd?          | <p>O ran pynciau sy'n addas i'w harfarnu, ein nod yw cynhyrchu Adroddiad Archwilio Pwnc a'i rannu â'r cynigydd pwnc o fewn 2 fis ar ôl cyflwyno'r pwnc. Fodd bynnag, gall hyn gymryd mwy o amser yn ystod galwadau pwnc agored, lle rydym yn derbyn nifer fawr o geisiadau ar yr un pryd.</p> <p>Bydd pynciau a allai fod yn addas ar gyfer cynhyrchu canllawiau arnynt yn cael eu hystyried yn ail hanner 2022, ac yn cael eu hychwanegu at ein rhaglen waith ar gyfer 2022-2023. Yna, mae'r broses arfarnu yn cymryd 6-9 mis, felly bydd canllawiau ar gyfer y pynciau a gyflwynir yn ystod y galwad pwnc agored yn cael eu cyhoeddi tua dechrau/canol 2023.</p>  |
| Ydych chi'n cyhoeddi eich canfyddiadau?                  | Ydyn, mae ein holl Adroddiadau Archwilio Pwnc, Adroddiadau Arfarnu Tystiolaeth a'n Canllawiau yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Gallwch weld enghreifftiau blaenorol yma.  |



|   |   |
|---|---|
| <p>Ar ôl i mi gyflwyno pwnc, sut y byddaf yn cymryd rhan mewn unrhyw waith pellach?</p> | <p>Bydd tîm HTW yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am bob cam o'ch cais. Os byddwn yn cynhyrchu Adroddiad Archwilio Pwnc, byddwn yn anfon hwn atoch i roi sylwadau arno, ac yn awgrymu unrhyw beth sydd angen ei newid cyn i ni ei gyhoeddi. Os byddwn yn cynhyrchu Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth a chanllawiau, byddwn yn eich gwahodd i roi sylwadau ar hyn yn ysgrifenedig, ac/neu i enwebu arbenigwyr pwnc neu randdeiliaid eraill i wneud hynny. Drwy gydol unrhyw arfarniad, bydd ein tîm ymchwil yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi, a gallent ofyn i gael trafod a mireinio agweddau ar ein gwaith gyda chi, i sicrhau ei fod yn ateb y cwestiwn cywir.</p> |
|---|---|